TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Entry to Vocational Studies Level Entry 3

**Yn gryno**

Mae hwn yn gwrs lefel mynediad sydd wedi ei ddylunio i gwmpasu anghenion pob dysgwr a allai ystyried amgylchedd dosbarth cyffredin yn heriol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...Nad oes gennych gymwysterau ffurfiol

... Ydych eisiau cwrs lefel mynediad

..Ydych angen amgylchedd diogel a meithringar i astudio

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn yn addas i chi os nad oes gennych unrhyw gymwysterau ffurfiol ac yn chwilio am gwrs lefel mynediad. Bydd yn fuddiol i ddysgwyr nad ydynt yn ymdopi gydag amgylchedd dosbarth cyffredin a fyddai angen cwrs cyflwyniadol i gwmpasu eu hanghenion unigol, gan

ddarparu amgylchedd diogel a meithringar iddynt astudio ynddo, cyn symud ymlaen at gyrsiau Lefel 1.

Mae ystafell werdd (ystafell dawel) ar gael i ddysgwyr sydd angen seibiant o wersi neu gefnogaeth fugeiliol ychwanegol. Mae'r ystafell werdd dan oruchwyliaeth hyfforddwr dysgu sydd â phrofiad mewn cefnogaeth fugeiliol bob amser.

Bydd dysgwyr, yn ddibynnol ar eu pwnc astudio, yn derbyn diploma, tystysgrif neu ddyfarniad mewn Cyflogadwyedd a Datblygiad Personol Lefel Mynediad City & Guilds.

Meysydd dan sylw:

Sgiliau llythrennedd a rhifedd
Sgiliau Cyflogadwyedd
Prosiectau sgiliau meddal megis adeiladu hyder, perthnasau, presenoldeb a chynhwysiad

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Ymroddiad llawn at bresenoldeb a pharch tuag at eraill yw'r nodweddion hanfodol a ddisgwyliwn o'n dysgwyr ar y cwrs hwn.

Cymwysterau i'w hastudio:

Cyflogadwyedd a Datblygiad Personol Lefel Mynediad 3
Cymhwyster/au cefnogi addas pan fo'n berthnasol i deilwra cynnwys y cynllun i gyrraedd anghenion penodol y gymuned, y dysgwr neu ddiwydiant

Mae pob asesiad ar sail aseiniad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Cyrsiau galwedigaethol Lefel 1, cyrsiau addysg neu gyrsiau hyfforddiant eraill, neu gyflogaeth a gefnogir.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.